

# Rhoi Plant yn Gyntaf: Maniffesto ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2021

**Mae Cymru yn ymfalchïo yn ei thraddodiad o arddangos ymrwymiad i hybu hawliau a llesiant pob plentyn, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i wella bywydau plant, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed.**

Mae deddfwriaeth sy'n gosod CCUHP mewn lle canolog yn y broses o wneud penderfyniadau, ac sy'n rhoi amddiffyniad cyfartal i blant rhag ymosodiad o dan y gyfraith yn dangos beth sy'n gallu cael ei gyflawni pan fydd hawliau plant yn y canol ac yn cael blaenoriaeth.

Mae COVID-19 yn parhau i gael effaith ddwys ar fywydau beunyddiol plant a phobl ifanc, yn ogystal ag achosi heriau digynsail i'w teuluoedd a'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio. Er nad yw pob plentyn wedi cael yr un profiadau, mae'r pandemig wedi amharu'n sylweddol ar eu bywydau beunyddiol, gan waethygu anghydraddoldebau oedd eisoes yn bodoli ac amlygu'r angen am fuddsoddiad tymor hir mewn plant ac amddiffyn eu hawliau. Bydd rhai plant, a oedd eisoes yn eithriadol o fregus ac yn profi, neu mewn perygl o brofi, trawma cymhleth, wedi dioddef effaith wael. Bydd pwysau ariannol yn y cartref hefyd wedi cael effaith negyddol ar lesiant plant.

## Rydyn ni'n galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i'r canlynol

- **Gwneud** plant yn flaenoriaeth
- **Gweld** plant fel rhan o'r ateb wrth ymadfer wedi COVID-19
- **Gwrando** ar blant a rhoi sylw i beth maen nhw'n ei ddweud wrthych chi
- **Cefnogi** plant trwy fuddsoddi yn y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio
- **Gwerthfawrogi** plant trwy flaenoriaethu ymyrraeth gynnar, ataliaeth a mesurau cymorth i deuluoedd

## Nod ein galwadau yw sicrhau bod

- **Pob** plentyn yn cael mynediad i'w HAWLIAU
- **Pob** plentyn yn cael eu DIOGELU a'u HAMDDIFFYN
- **Dim un** plentyn yn profi TLODI
- **Pob** plentyn yn cael IECHYD A LLESIANT EMOSIYNOL cadarnhaol

Rydyn ni'n galw ar yr holl bleidiau gwleidyddol i roi blaenoriaeth i blant a phobl ifanc, a chyflawni'r **pedwar maes blaenoriaeth** canlynol.

## Cryfhau Strwythurau Cenedlaethol yn y Llywodraeth a'r Senedd

- Penodi Gweinidog Plant sydd â throsolwg o'r holl feysydd polisi sy'n cael effaith ar blant, ac atebolrwydd amdanynt
- Sefydlu Is-bwyllgor Cabinet ar gyfer Plant i sicrhau bod materion plant yn cael eu cydlynu a bod gwell craffu arnynt
- Creu Grŵp Gweithredu oddi mewn i'r gwasanaeth sifil, yn strwythur parhaol i gydlynu gweithgareddau'n well ar ran y Llywodraeth
- Cadw Pwyllgor Craffu ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Senedd
- Sicrhau newidiadau trwy ddeddfwriaeth sy'n trosglwyddo cyfrifoldeb, atebolrwydd ac ariannu Comisiynydd Plant Cymru i'r Senedd

## Gwella Strwythurau Lleol a Rhanbarthol

- Sicrhau bod yr holl strwythurau lleol a rhanbarthol, gan gynnwys y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn rhoi blaenoriaeth ddigonol i faterion penodol plant a phobl ifanc
- Gwella'r trefniadau monitro, adrodd ac atebolrwydd i sicrhau bod strwythurau lleol a rhanbarthol yn cyflawni dros blant
- Sicrhau bod cyrff trydydd sector plant yn cael cynrychiolaeth briodol ar strwythurau lleol a rhanbarthol



## Buddsoddi mewn Plant

- Sicrhau bod y lefel uchaf o adnoddau sydd ar gael yn cael eu darparu ar gyfer plant
- Cryfhau cydymffurfiaeth â CCUHP ar lefel genedlaethol a lleol
- Blaenoriaethu cyllid cynaliadwy i wasanaethau VAWDASV arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc, a buddsoddi'n fwy eang mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth
- Gwella'r trefniadau i fonitro dyraniadau cyllideb i blant, a sicrhau bod yr adroddiadau'n ddigon hygyrch a thryloyw
- Sicrhau bod y pontio rhwng gwasanaethau ar gyfer oedrannau ac anghenion gwahanol yn digwydd yn ddi-fwlch, ac nad oes unrhyw blentyn sydd ag angen cymorth parhaus yn cael ei adael ar ôl
- Cryfhau strwythurau cyfranogiad sy'n golygu bod modd clywed llais plant a phobl ifanc ym mhob mater sy'n ymwneud â nhw

## Ymateb i COVID-19

- Bod plant agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd newydd fynd i'r sefyllfa honno o ganlyniad i'r pandemig, yn derbyn y gefnogaeth barhaus angenrheidiol i adfer wedi profiadau trawmatig
- Bod anghenion yr holl blant, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o wynebu tlodi, yn cael blaenoriaeth ddigonol wrth i fesurau'r cyfnod clo gael eu llacio'n ddiogel
- Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o effaith COVID-19 ar blant a theuluoedd yn llywio trefniadau polisi ac ymarfer yn y dyfodol
- Parhau i lywio ac adlunio cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn hwyluso a chryfhau ymarfer gwybodus am drawma gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi dioddef effaith digwyddiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ac amddifadedd sosio-economaidd
- Sicrhau na chymerir cam yn ôl o ran y datblygiadau polisi ac ymarfer cadarnhaol a welwyd yn ystod COVID-19

Mae gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys rôl hanfodol y Trydydd Sector Plant, yn wynebu heriau difrifol, ac mae disgwyl i'r galw gynyddu yn ystod y tymor byr-canolig, ochr yn ochr â phwysau ariannol sylweddol ar lefel strategol a gweithredol. Mae effaith COVID-19 a methiannau olynol i fynd i'r afael ag achosion gwaelodol anfantais a sefyllfa fregus yn mynnu bod systemau gwaith integredig a phartneriaethau gwell yn cael eu gwreiddio, er mwyn cyflawni dull system gyfan o gyflawni gwell canlyniadau i blant.

**Rydyn ni'n gofyn i bob plaid wleidyddol gymryd camau i gefnogi ein gwasanaethau trydydd sector yng Nghymru, fel bod modd iddyn nhw barhau i chwarae rôl ganolog wrth ddiogelu hawliau dynol pob plentyn, gan gynnwys y rhai mwyaf difreintiedig ac agored i niwed**

Plant yng Nghymru · Children in Wales

Children in Wales
Plant yng Nghymru

Credwch mewn plant
Believe in children
Barnardo's Cymru

Action for Children
Gweithredu dros Blant

NSPCC
CYMRU | WALES

tgp CYMRU
PLANT A THEULUOEDD
CHILDREN AND FAMILIES

The Children's Society

Achub y Plant
Save the Children

MYND AMDANI
Prince's Trust Cymru
START SOMETHING

VFCC
VOICES FROM CARE CYMRU

nyas cymru
gwasanaeth eiriolaeth ieuenctid cenedlaethol
national youth advocacy service